cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2025/26

DSA
(Slim version)

Disabled Student's Allowance Application Form (DSA)

Cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

English Form - **Pages 1-10**
Ffurflen Saesneg - **Tudalennau 1-10**

Welsh Form - **Pages 11-20**
Ffurflen Gymraeg - **Tudalennau 11-20**

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

Beth y mae angen i mi ei wneud er mwyn cael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)?

Dyma grynodeb o'r camau i'w cymryd er mwyn gwneud cais am DSA a chael DSA.

1. Ymgeisio am DSA

Cwblhewch bob adran yn y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl gyda'r holl dystiolaeth rydym wedi gofyn amdani. Gorau po gyntaf y byddwn yn derbyn eich ffurflen a'ch tystiolaeth – y cyflymaf y byddwn yn gallu dweud wrthych a allech gael DSA.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi a dyddio'r datganiad.

2. Darganfyddwch yn union pa offer a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch

Os ydych yn gallu cael DSA, efallai y bydd angen i chi gael asesiad anghenion astudio. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth gywir i'ch helpu i gwblhau eich cwrs. Os bydd angen i chi gael asesiad, byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthych sut i wneud hyn.

Os oes gennych asesiad anghenion astudio, byddwn yn cael adroddiad yn rhoi gwybod i ni am yr offer a'r cymorth y bydd eu hangen arnoch. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i ni faint y bydd yn ei gostio a phwy all ei ddarparu. Byddwch yn derbyn copi o'r adroddiad hwn. Byddwn yn edrych ar yr argymhellion ac yn gwneud ein penderfyniad terfynol.

3. Cael eich offer a chefnogaeth

Byddwn yn anfon llythyr hawl DSA atoch i ddweud wrthych pa offer a chymorth arall y byddwch yn cael DSA ar eu cyfer. Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthych sut i gael eich cefnogaeth. Peidiwch â phrynu offer na threfnu cymorth cyn i chi gael y llythyr hwn. Ni fyddwn yn gallu ad-dalu'r costau hyn yn ôl i chi.

Ble mae modd i mi gael rhagor o wybodaeth am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl?

Trowch at ein gwefan sef: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Canllawiau Braille, print bras neu sain

Gallwch archebu ffurflenni a chanllawiau Braille, print bras neu sain trwy anfon e-bost gyda'ch enw, cyfeiriad, a rhif cyfeirnod cwsmer ynghyd â pha ffurflen a fformat yr hoffech dderbyn at:

• **brailleandlargefonts@slc.co.uk**

neu gallwch ein ffonio ar

• **0141 243 3686**

Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurfiau amgen y gall y cyfeiriad e-bost a rhif ffôn uchod ddelio â nhw.

Sut mae modd i mi gysylltu â chi?

- Trowch at ein gwefan sef: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
- Cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050** neu ar y rhif ffôn testun **0300 100 1693**.

Cyfarwyddiadau

- Pan fyddwch yn gweld yr eicon hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gynorthwyo'ch cais. t

Adran 1 - manylion personol

Cyfeirnod Cwsmer ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Rhyw ☐ **Gwryw** ☐ **Benyw**

Dyddiad geni **Dydd** ☐☐ **Mis** ☐☐ **Blwyddyn** ☐☐☐☐

Adran 2 - cymorth ariannol arall

Bwrsariaethau a dyfarniadau

Yn y flwyddyn academaidd 2025/26 a fyddwch yn gymwys i wneud cais am:

- fwrsariaeth gan yr Adran Iechyd neu'r GIG (ac eithrio'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol a delir gan Gofal Cymdeithasol Cymru); neu
- fwrsariaeth gofal iechyd gan yr Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban (Lwfans Gofal Iechyd yr Alban); neu
- bwrsariaeth gofal iechyd gan yr Adran lechyd (Gogledd Iwerddon)?

Byddaf ☐ **Na fyddaf** ☐

! Os 'Byddaf', ni fyddwch yn gymwys i gael DSA gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Ni ddylech barhau gyda'r cais hwn.

Dylech gysylltu â darparwr eich bwrsariaeth gan ofyn am gyngor ynghylch unrhyw gymorth ychwanegol y gallech fod yn gymwys i'w gael oherwydd anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

Adran 3 - Gwybodaeth a thystiolaeth DSA

Eich anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhawster dysgu penodol neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Rydych wedi'ch diffinio fel rhywun ag anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych nam corfforol neu feddyliol, sydd yn cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

a A fyddech gystal â nodi'r manylion llawn a darparu tystiolaeth ynghylch eich anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhawster dysgu penodol neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Anabledd, cyflwr iechyd hirdymor neu gyflwr iechyd meddwl

Ar gyfer pob anabledd neu gyflwr iechyd sydd gennych, anfonwch ddatganiad ysgrifenedig neu lythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol cymwys atom i gadarnhau effeithiau hirdymor eich anabledd neu gyflwr iechyd ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol yn cynnwys addysg.

Anhawster dysgu penodol (megis dyslecsia)

Ar gyfer pob anhawster dysgu penodol (ADP) sydd gennych chi, anfonwch adroddiad diagnostig atom wedi ei ysgrifennu yn unol â'r Canllawiau Gweithgor ADP 2005 gan un o'r canlynol:

- Ymarferydd seicolegol
- Athro arbenigol gyda chymhwysiad priodol sy'n meddu ar Dystysgrif Ymarfer Asesiad ADP

Anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Anfonwch un o'r canlynol atom:

- Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gan Awdurdod Lleol
- Cynllun Gofal Iechyd Addysgol
- Cynllun Datblygu Unigol
- Datganiad ysgrifenedig neu lythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol cymwys i gadarnhau effeithiau hirdymor eich anhwylder ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol yn cynnwys addysg

Chi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau er mwyn cael y dystiolaeth angenrheidiol.

Adran 3 - Gwybodaeth a thystiolaeth DSA

Parhad

b Ai dyma'ch cais cyntaf am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)? **Ie** ☐ **Na** ☐

os 'Ie', ewch **i adran 4**

Os 'Na', dylech nodi manylion pob cais blaenorol yr ydych wedi'i wneud am arian DSA.

Dyddiad y cais (Dydd / Mis / Blwyddyn)	Awdurdod ariannu y cyflwynwyd y cais iddo (t)
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	
☐☐ / ☐☐ / ☐☐☐☐	

(t) Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos canlyniad pob cais blaenorol am arian DSA ac unrhyw Adroddiad Asesiad Anghenion DSA a gawsoch gan yr awdurdod ariannu.

Os na fydd modd i chi ddarparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani, dylech nodi manylion llawn yr arian a gawsoch yn y blwch isod.

Efallai y byddwn yn cysylltu â'r awdurdodau ariannu perthnasol am wybodaeth bellach.

Adran 4 - eich caniatâd

Eich caniatâd ar gyfer y trefniadau DSA

Ticiwch y blychau isod os ydych yn cydsynio i'r trefniadau DSA canlynol. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch drwy gyfnewid gwybodaeth â'r gwasanaeth anabledd yn eich prifysgol neu goleg a'ch cyflenwr(wyr) DSA. Byddwn hefyd yn gallu gwneud taliadau ar eich rhan. Os na fyddwch yn rhoi caniatâd, bydd angen i chi gysylltu â'r bobl hyn a gwneud taliadau'n uniongyrchol, ac efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i gael eich cymorth yn ei le.

☐ Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r cynghorydd anabledd yn fy mhrifysgol neu goleg gyfnewid gwybodaeth am fy nghais DSA lle bo angen i wneud yn siŵr fy mod yn cael yr help sydd ei angen arnaf.

☐ Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru a fy nghyflenwr(wyr) DSA gyfnewid gwybodaeth am fy nghais DSA lle bo angen i wneud yn siŵr fy mod yn cael yr help sydd ei angen arnaf.

☐ Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru dalu'r ganolfan asesu anghenion a chyflenwyr offer a chefnogaeth yn uniongyrchol.

Mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl parthed y ffurflen gais hon. I dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â ni.

Adran 5 - eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu

Manylion cyfrif banc/cymdeithas adeiladu yn y DU

Pan fo modd, byddwn yn talu cyflenwyr eich offer neu'ch gwasanaethau cymorth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, a fyddech gystal â llenwi'r adran isod er mwyn i ni allu eich talu chi os bydd angen i ni wneud hynny. Nid oes yn rhaid i chi ddarparu'r manylion hyn os ydych wedi eu darparu i ni yn barod.

Rhaid i'r cyfrif fod yn eich enw chi ac mae'n rhaid ei fod yn gallu derbyn credydau uniongyrchol.

Côd didoli ☐☐ - ☐☐ - ☐☐

Rhif cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif rôl cymdeithas adeiladu (os yw'n berthnasol) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Datganiad

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llofnodi'r ffurflen hon.

Neu, gallwch ofyn am gopi trwy ysgrifennu at y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yn 10 Clyde Place, Glasgow, G5 8DF neu ffonio Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru.

- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth a nodais yn y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cymorth ariannol, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
- Rwy'n deall fod yr amodau sy'n berthnasol parthed y cais hwn am DSA hefyd wedi eu cynnwys yn y prif ddatganiad yr wyf wedi ei lofnodi.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

X

Dyddiad heddiw

Dydd Mis Blwyddyn

Nodiadau atodol

Os ydych yn darparu gwybodaeth atodol isod, nodwch yn glir am ba adran a pha rif cwestiwn mae'r wybodaeth yn sôn.

Rhestr Wirio

Cyn dychwelyd y ffurflen hon, a fyddech gystal â sicrhau eich bod wedi cymryd y camau canlynol:

- ☐ Llofnodi a dyddio'r datganiad.
- ☐ Wedi cael copïau o'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani i gefnogi'ch cais.
- ☐ Cadwch yr holl dystiolaeth wreiddiol
- ! Bydd yr holl dystiolaeth yn cael ei dinistrio'n ddiogel ar ôl ei phrosesu.

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon a'ch holl dystiolaeth, dewiswch o'r opsiynau canlynol ar sut i ddychwelyd y rhain atom:

Opsiwn 1

Lanlwytho'r ffurflen a'r dystiolaeth gan ddefnyddio'ch dyfais

1 – Cadw'r ffurflen hon i'ch dyfais

2 – Ewch i'ch cyfrif ar-lein **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

3 – Cliciwch ar yr adran 'rheoli eich cyllid myfyriwr', yna dewiswch 'lanlwytho tystiolaeth ategol'

Opsiwn 2

E-bostio eich ffurflen a thystiolaeth

Gallwch hefyd ddychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau a thystiolaeth i'r tîm DSA trwy e-bost yn **SFW_DSA_Team@slc.co.uk**

Sicrhewch fod y rhain wedi'u cynnwys fel atodiadau

Opsiwn 3

Argraffu a phostio'r ffurflen hon a'r dystiolaeth

Dychwelwch hi i:
Cyllid Myfyrwyr Cymru
Blwch Post 211
Cyffordd Llandudno
LL30 9FU

Cofiwch dalu'r tâl post cywir.